Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

POWERED BY LEVELLING UP

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Canlyniadau Ymgynghoriad ar Adfywio Ardal Pentrefoelas

**Gorffennaf 2024**

Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

POWERED BY LEVELLING UP

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Cyngor Cymuned Pentrefoelas

# Canlyniadau Ymgynghoriad ar Adfywio Ardal Pentrefoelas

**This document is also available in English**

## Gair gan Gari B Jones, Cadair Cyngor Cymuned Pentrefoelas

Yn gyntaf gaf i ddiolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad. Diben gwneud yr ymgynghoriad oedd i ddarganfod be oedd y gymdeithas leol yn feddwl fuasai o fantais i'r pentref. Cafwyd ystod eang o syniadau a llawer o sylwadau positif iawn – braf iawn oedd gweld hynny. Wedi cwblhau'r adroddiad hwn – hyderaf y gall pob mudiad, clwb neu gymdeithasau lleol ddefnyddio'r adroddiad i'w mantais, pe baent yn dymuno trio am grantiau sydd ar gael o wahanol ffynonellau i ddod a'u syniadau / projectau i ffrwyth.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb a roddodd eu hamser i rannu'r holiaduron allan yn y dechrau, ac i'r Bocs Bwyd a'r Ysgol am eu parodrwydd i fod yn fannau casglu i'r holiaduron ar ôl iddynt gael eu cwblhau.

Yn olaf hoffwn ddiolch yn fawr i Gwion Jones o Ymgynghorwyr Amgen Cyfyngedig am yr holl waith o wneud yr holiadur ar y dechrau, i fynd drwyddynt i gyd a'u dadansoddi yn fanwl er mwyn cael yr adroddiad terfynol ar y diwedd.

## Gair gan Gwennol Ellis, yr Aelod Etholedig tros yr Ardal

Rwyf yn hynod falch fod Cyngor Cymuned Pentrefoelas wedi gwneud cais am arian o'r gronfa Ffyniant Bro er mwyn cynnal ymgynghoriad o anghenion trigolion a defnyddwyr eraill adnoddau'r gymuned hon. Hoffwn eu llongyfarch hefyd ar fod yn llwyddiannus yn eu cais am arian. Penodwyd Mr Gwion Jones i wneud y gwaith a rhaid diolch iddo am ei waith trylwyr a gofalus. Mae'r ymateb i'r holiaduron wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda llawer wedi cynnig syniadau creadigol ynglŷn a sut y byddent yn dymuno gweld y pentref a'r ardal yn datblygu i'r dyfodol. Diolch i bawb sydd wedi ymateb, i'r Cynghorwyr Cymuned am ddosbarthu'r holiaduron ac i'r Ysgol a Bocs Bwyd am eu parodrwydd i dderbyn yr holiaduron ar ôl iddynt gael eu cwblhau.

Mae'n galonogol darllen fod llawer wedi nodi nifer o gryfderau yn yr ardal, yn enwedig yr Ysgol a'r ymdeimlad o gymuned. Wrth gwrs, mae'n bwysig fod pob ardal yn cynllunio ar gyfer y dyfodol ac mae llawer o syniadau da wedi eu cynnig ar gyfer gwneud hynny.

Y cam nesaf fydd i gymdeithasau a grwpiau ddefnyddio'r adroddiad fel tystiolaeth o angen pan fyddant yn gwneud ceisiadau am arian grant i ddatblygu rhai o'r syniadau.

# Canlyniadau Ymgynghoriad ar Adfywio Ardal Pentrefoelas

## 1. Cefndir

1.1 Rhoddwyd cais i mewn i Gronfa Allweddol Adfywio Cymunedol UKSPF Conwy ar ddiwedd Medi 2024 i gynnal astudiaeth dichonolrwydd yn ardal Pentrefoelas parthed adfywio'r ardal, a chafwyd cadarnhad fod y cais hwnnw wedi bod yn llwyddiannus ar 21.12.2023.

1.2 Roedd Ymgynghorwyr Amgen Cyfyngedig wedi cyflwyno dyfynbris ar gyfer gwaith perthnasol cyn i'r cais fynd i mewn, a phenodwyd y cwmni i gynorthwyo hefo'r astudiaeth dichonolrwydd.

1.3 Mynychodd Gwion Jones o Ymgynghorwyr Amgen gyfarfodydd o Gyngor Cymuned Pentrefoelas ym Mis Ionawr, Mis Chwefror a Mis Mawrth 2024 i drafod y gwaith, gwneud cynlluniau perthnasol, a datblygu y dogfennau angenrheidiol ar gyfer ymgynghoriad parthed adfywio ardal Pentrefoelas.

1.4 Diben yr ymgynghoriad oedd cael barn pobl sydd yn byw yn ardal Pentrefoelas, yn gweithio yno, neu yn defnyddio cyfleusterau yn yr ardal am beth ddylai y blaenoriaethu fod o ran adfywio yr ardal.

1.5 Datblygwyd holiadur ar gyfer yr ymgynghoriad hwn rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2024 gyda mewnbwn gan Gyngor Cymuned Pentrefoelas a'r Aelod Etholedig tros yr ardal. Roedd y fersiwn derfynol yn cynnwys syniadau am brosiectau adfywio oedd wedi dod gan sefydliadau a chymdeithasau perthnasol, yn ogystal a rhai a ddaeth oddi wth y Cyngor Cymuned.

1.6 Cynhyrchwyd fersiynau Cymraeg, Saesneg a dwyieithog o'r holiadur, hefo y copïau caled a ddosbarthwyd yn ddwyieithog yn bennaf.

1.7 Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 07.03.2024 a rhoddwyd terfyn amser arno o Ddydd Gwener 26.04.2024 ar gyfer dychwelyd holiaduron wedi eu cwblhau. Roedd y Cyngor Cymuned yn fodlon derbyn holiaduron ar ôl y dyddiad hwnnw hefyd, yn enwedig gan aelodau sefydliadau neu gymdeithasau na fuasai yn cyfarfod cyn hynny.

1.8 Dosbarthwyd holiaduron mewn copi caled a thros e-bost gan Aelodau Cyngor Cymuned Pentrefoelas, Gwennol Ellis yr Aelod Etholedig tros yr ardal, a thrwy Ysgol Pentrefoelas. Y bwriad oedd sicrhau bod pob aelwyd ym mhlwy Pentrefoelas yn cael copi o'r holiadur a galwyd o ddrws i ddrws i geisio sicrhau hynny. Gadawyd rhai holiaduron gwag yn y Bocs Bwyd hefyd, ac yno y gofynnwyd i ymatebwyr adael holiaduron wedi eu cwblhau.

## 2. Yr Ymatebwyr

2.1 Daeth 47 holiadur wedi ei cwblhau i law yn cynnwys ymatebion gan 53 o bobl. Roedd tri holiadur yn rhoi enwau 2 o bobl yn y blwch perthnasol ac un holiadur yn rhoi enwau teulu o 4. Yn yr achosion lle roedd mwy nac un person wedi cyfrannu at yr holiadur, rhoddwyd y nifer o gyfranwyr ar gyfer diben cyfri niferoedd ymatebion o wahanol fathau yn yr adroddiad yma.

2.2 Gofynnwyd am enw yr ymatebydd fel rhan o'r holiadur i geisio gwarchod yn erbyn y posibilrwydd o bobl yn llenwi mwy nac un holiadur i mewn. Fel y gwelir yn nhabl 1, dim ond 4 wnaeth ddim rhoi eu henwau ar eu hymateb.

**Tabl 1**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw wedi e gynnwys | 49 (97%) | Enw heb ei gynnwys | 4 (3%) |

2.3 Fel y gellid disgwyl, roedd y rhelyw (60%) o'r ymatebwyr wedi rhoi Pentrefoelas fel eu pentref, tref neu gymuned, hefo 13% wedi rhoi Rhydlydan, sydd ym mhlwy Pentrefoelas.

2.4 Roedd yna gyfanswm o 12 o bobl a roddodd le arall, ac un person na roddodd ateb i'r cwestiwn yma. O'r rhai wnaeth ddim rhoi Pentrefoelas neu Rhydlydan fel eu pentref, tref, neu gymuned, ymddengys bod y rhelyw ohonynt; os nad y cyfan; yn bobl sydd yn gweithio yn yr ardal neu yn defnyddio cyfleusterau yno.

**Tabl 2**

| Pentref, tref neu gymuned yr ymatebwyr | Pentrefoelas | Rhydlydan | Ysgol Pentrefoelas | Betws-y-Coed | Bylchau |
|---|---|---|---|---|---|
| | 32 (60%) | 7 (13%) | 3 (6%) | 4 (8%) | 1 (2%) |
| | Dinbych | Nebo | Padog | Ysbyty Ifan | Dim ateb |
| | 1 (2%) | 1 (2%) | 1 (2%) | 1 (2%) | 1 (2%) |

2.5 O ran ystodau oedran, roedd 34% o'r rhai a roddodd eu hoedran wedi rhoi rhwng 25 a 49, a 42% wedi rhoi rhwng 50 a 67. Roedd y cyfanswm o ymatebion gan rai o dan 25 yn is na'r hyn a ellid fod wedi ei ddisgwyl.

**Tabl 3**

| Ystod oedran yr ymatebwyr | < 16 | 16 - 24 | 25 - 49 | 50 - 67 | 68+ | Dim ateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 4 | 1 | 18 | 22 | 7 | 1 |
| Canran o ymatebwyr | 8% | 2% | 34% | 42% | 13% | 2% |

2.6 O ran dewis iaith, roedd mwyafrif sylweddol o'r ymatebion yn Gymraeg (87%), ond roedd yna hefyd nifer eithaf yn Saesneg (21%). Mae'r cyfansymiau yn cynnwys ymatebion gan 4 o'r cyfranwyr a wnaed yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mae'r canrannau felly yn dod i fwy na 100%.

**Tabl 4**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymraeg | 46 (87%*) | Saesneg | 11 (21%*) |

*Noder: Nid yw cyfanswm y canrannau yn dod i 100% am fod rhai wedi ymateb yn y ddwy iaith.

## 3. Atebion i'r cwestiynau

3.1 Cryfderau ardal Pentrefoelas ar hyn o bryd

Roedd hwn yn gwestiwn agored a chafwyd ystod eang o wahanol atebion iddo. Rhoddodd pob ymateb o leiaf un cryfder, rhoddodd llawer rhyw dri neu bedwar, a'r mwyaf a roddwyd oedd saith.

Rhoddwyd atebion cyffelyb dan yr un pennawd er diben dadansoddi, ac mae'r atebion a roddwyd gan dri ymatebydd neu fwy wedi eu cynnwys yn nhabl 5.

**Tabl 5**

| 1 | Beth yw cryfderau mwyaf ardal Pentrefoelas ar hyn o bryd? | | |
|---|---|---|---|
| Yr Ysgol | 32 | Nosweithiau Cymdeithasol | 6 |
| Cymuned glos | 30 | Ardal wledig hardd | 5 |
| Y Bocs Bwyd / Caffi | 16 | Canolfan Gymunedol | 5 |
| Cymreictod | 14 | Cyfleusterau / cyfleusterau cyhoeddus | 4 |
| Cymdeithas Godre Hiraethog | 7 | Meithrinfa Twt Lol | 4 |
| Tafarn y Foelas | 7 | Trafnidiaeth gyhoeddus | 4 |
| Busnesau lleol / ardal busnesau bach | 6 | Y Maes Chwarae | 3 |
| Clwb pêl-droed / Cae pêl-droed | 6 | | |

Yr Ysgol a'r gymuned leol a nododd ymatebwyr fel cryfderau mwyaf yr ardal ar hyn o bryd, hefo'r ddau yn cael tua dwywaith cymaint yn eu crybwyll ac unrhyw un o'r atebion eraill.

3.2 Beth sydd fwyaf o angen sylw

Roedd hwn hefyd yn gwestiwn agored, ac unwaith eto rhoddwyd atebion cyffelyb dan yr un pennawd er diben dadansoddi. Mae'r atebion a roddwyd gan dri ymatebydd neu fwy wedi eu cynnwys yn nhabl 6.

**Tabl 6**

| 2 | Beth sydd fwyaf o angen sylw o ran gwella ardal Pentrefoelas? | | |
|---|---|---|---|
| Ailagor y Siop | 17 | Gwella'r parc | 5 |
| Cyfleoedd / adnoddau ffitrwydd / chwaraeon | 15 | Gwella'r cae chwarae / cae pêl-droed | 5 |
| Tai i bobl leol | 11 | Pethau i ddenu ymwelwyr | 4 |
| Cae aml ddefnydd / pob tywydd | 8 | Harddu'r ardal e.e. blodau ac ati | 4 |
| Cyfleusterau i blant a phobl ifanc | 8 | Gwell trafnidiaeth gyhoeddus | 4 |
| Tacluso / clirio sbwriel | 6 | Mwy o aelodau ifanc ar y Cyngor Cymuned | 4 |
| Gwella parc chwarae y plant | 6 | Gwella'r ffyrdd yng nghefn gwlad | 3 |

Mae ambell un o'r pethau a nodwyd yn yr ymatebion yn bethau nad ymddengys yn hawdd mynd i'r afael a hwy ar lefel leol, ond roedd y cwestiwn yn gwahodd atebion ehangach na hynny, a'r cwestiynau nesaf oedd yn canolbwyntio ar bethau y gallai bod dichon eu gwneud yn ymarferol yn lleol.

3.3 Blaenoriaethu syniadau

**Tabl 7**

| 3 | O ran adfywio ardal Pentrefoelas, pa flaenoriaeth ddylid ei roi i'r canlynol: | **Dim angen** | **Isel** | **Canolig** | **Uchel** |
|---|---|---|---|---|---|
| a) | Maes chwarae aml-ddefnydd ar gyfer trigolion o bob oedran ar safle'r Ysgol / Y Ganolfan Gymunedol | **-** | **3** | **8.5*** | **41.5*** |
| b) | Trac rhedeg pwrpasol o amgylch cae'r Ysgol / Y Ganolfan Gymunedol | **8** | **9** | **16** | **20** |
| c) | Gwella'r parc chwarae a sicrhau bod offer cynhwysol i rai anabl | **-** | **4** | **7** | **42** |
| d) | Ail-greu maes chwarae antur ar gyfer plant a phobl ifanc | **-** | **4** | **12** | **37** |
| e) | Gwella a chreu cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr, gan gynnwys cyfleusterau picnic | **3** | **9** | **15** | **26** |
| f) | Cywaith treftadaeth a hanes lleol i gynnwys byrddau dehongli ychwanegol a gwaith yn pontio'r cenedlaethau | **-** | **9** | **24.5*** | **19.5*** |
| g) | Sefydlu pwyntiau gwefru cyhoeddus i gerbydau trydan mewn man addas yn y pentref | **4** | **9** | **18** | **21** |

*Rhoddodd ymatebydd dic mewn dau flwch ac felly rhoddwyd 0.5 ar gyfer y ddau.

Roedd cefnogaeth gryf iawn ymysg yr ymatebwyr ar gyfer a), c) a d) hefo rhwng 70% a 79% yn rhoi blaenoriaeth uchel iddynt, rhwng 13% a 23% yn rhoi blaenoriaeth ganolig iddynt, rhwng 6% ac 8% yn rhoi blaenoriaeth isel iddynt, a neb yn dweud nad oedd eu hangen.

Roedd cefnogaeth dda hefyd ar gyfer b), e) f), ac g), hefo rhwng 37% a 49% yn rhoi blaenoriaeth uchel iddynt a rhwng 28% a 46% yn rhoi blaenoriaeth ganolig. O'r pedwar yma, roedd y gefnogaeth fwyaf ar gyfer e) ac f) hefo pawb wnaeth ymateb yn gefnogol i f), a dim ond 3 yn dweud nad oedd angen e). Roedd y gefnogaeth ychydig yn llai ar gyfer g) hefo llai yr rhoi blaenoriaeth uchel neu ganolig iddo a 4 yn dweud nad oedd ei angen.

Ar gyfer b); y trac rhedeg pwrpasol o gwmpas cae yr ysgol; yr oedd lleiaf o gefnogaeth o'r syniadau a gynhwyswyd yn y tabl. Serch hynny roedd 36 o ymatebwyr (68%) wedi rhoi blaenoriaeth uchel neu ganolig i'r syniad, a dim ond 8 (15%) wedi dweud nad oedd dim ei angen.

3.4 Cynnig syniadau eraill

**Tabl 8**

| 4 | Syniadau eraill am adfywio ardal Pentrefoelas: | **Dim angen** | **Isel** | **Canolig** | **Uchel** | **Heb roi** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1) | Gwella / adnewyddu cyfleusterau'r Ganolfan Gymunedol e.e. cyfarpar Sinema, cyfleusterau llwyfan | - | - | - | **4** | **1** |
| 2) | Angen Siop Gymunedol | - | - | - | **3** | **2** |
| 3) | Ailagor y Siop / Angen Siop | - | - | - | **2** | **3** |
| 4) | Aros-fannau ar gyfer campervans | - | - | - | **4** | - |
| 5) | Clwb Ffermwyr hŷn | - | - | - | **4** | - |
| 6) | Gwella'r cyfleusterau ar y cae chwarae / goliau a net iawn i'r cae pêl droed, astro-turf o bosib / cae chwarae aml-bwrpas - cae 3g hefo llifoleuadau | - | - | - | **3** | **1** |
| 7) | Cadw'r toiledau ar agor | - | - | - | - | **3** |
| 8) | Tacluso o gwmpas y pentref | - | - | - | **2** | **1** |
| 9) | Gwella cyfleusterau toiledau cyhoeddus / rhoi cyfleusterau newid yn y toiledau ar gyfer gemau pêl droed, rygbi ac ati | - | - | - | - | **3** |

| 4 | Syniadau eraill am adfywio ardal Pentrefoelas: | Dim angen | Isel | Canolig | Uchel | Heb roi |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 10) | Teithiau cerdded wedi eu harwyddo / taflenni i hyrwyddo teithiau cerdded a llefydd hanesyddol / cymorth hefo llwybrau cerdded lleol | - | - | 2 | - | 1 |
| 11) | Ardal chwarae i blant o bob oed | - | - | - | 2 | - |
| 12) | Arwyddion Cymraeg o gwmpas y pentref e.e. enwau afonydd | - | - | - | 2 | - |
| 13) | Gwella trafnidiaeth gyhoeddus / Sicrhau fod gwasanaethau bws e.e. T.10 yn parhau | - | - | - | 1 | 1 |
| 14) | Tai lleol i bobl a theuluoedd lleol / Tai fforddiadwy lleol i'w prynu | - | - | - | 1 | 1 |
| 15) | Cwrt tenis | - | - | - | 1 | - |
| 16) | Dod a phob eiddo gwag yn ôl i ddefnydd | - | - | - | 1 | - |
| 17) | Gweithgareddau i dynnu pobl at eu gilydd | - | - | - | 1 | - |
| 18) | Gwneud y pentref yn lle mwy deniadol i ymwelwyr stopio | - | - | - | 1 | - |
| 19) | Newid y giât i'r maes chwarae i hwyluso mynediad i gadeiriau plant a chadeiriau olwyn | - | - | - | 1 | - |
| 20) | Creu delweddau yn yr ardal | - | - | 1 | - | - |
| 21) | Adnoddau a cyrsiau cyfrifiadurol | - | - | - | - | 1 |
| 22) | Ambell fainc wedi ei gosod i bobl gael eistedd | - | - | - | - | 1 |
| 23) | Arolwg o fusnesau yr ardal i weld eu hanghenion nhw | - | - | - | - | 1 |
| 24) | Cadw'r sgip ddwywaith y flwyddyn | - | - | - | - | 1 |
| 25) | Cyfleoedd i ddysgu Cymraeg | - | - | - | - | 1 |
| 26) | Gardd gymunedol | - | - | - | - | 1 |
| 27) | Gwella ymddangosiad y dafarn a'r siop | - | - | - | - | 1 |

Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO
POWERED BY LEVELLING UP
CONWY Cyngor Bwrdeistref Sirol / County Borough Council

Roedd 38 o ymatebwyr (72%) wedi cynnwys o leiaf un syniad yn eu hymateb i'r cwestiwn yma, hefo nifer wedi cynnwys mwy nac un.

Fel y gwelir yn nhabl 8, cafwyd nifer fawr o syniadau gwahanol ac mae rhai ohonynt yn adlewyrchu pethau a roddwyd mewn ymateb i gwestiwn 2, yr hyn sydd fwyaf o angen sylw yn yr ardal ar hyn o bryd. Mae eraill yn adlewyrchu dyheadau am gyfleusterau ychwanegol neu am gadw yr hyn sydd ar gael ar hyn o bryd.

Tra roedd yr holl ymatebwyr wedi rhoi lefel blaenoriaeth ar gyfer y syniadau a gynhwyswyd ar yr holiadur yn barod mewn ymateb i gwestiwn 3, roedd nifer sylweddol heb wneud hynny ar gyfer y syniadau yr oeddent wedi eu hychwanegu eu hunain.

3.5 Pwysigrwydd ceisio adfywio ardal Pentrefoelas

**Tabl 9**

| | | Ddim yn bwysig ⟵ ⟶ Pwysig iawn | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | Pa mor bwysig yw hi i geisio adfywio ardal Pentrefoelas? | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| | | **-** | **-** | **-** | **-** | **1** | **-** | **-** | **3** | **4** | **44** |

Noder: Roedd yna un ymatebydd wnaeth ddim ateb y cwestiwn yma.

Mae yn werth nodi fod cymaint o'r ymatebwyr (83%) wedi rhoi 10/10 am bwysigrwydd ceisio adfywio ardal Pentrefoelas, ac mai dim ond un ymatebydd roddodd sgôr o lai na 8/10.

3.6 Unrhyw beth arall oedd ymatebwyr am ei ychwanegu

**Tabl 10**

| 6 | Oes yna unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ychwanegu? | | |
|---|---|---|---|
| Ateb wedi ei roi | 15 (28%) | Dim ateb i'r cwestiwn yma | 38 (72%) |

Ychydig tros chwarter (28%) o'r ymatebwyr wnaeth roi ateb i'r cwestiwn yma. Fel y gellid disgwyl roedd yr atebion yn amrywio yn arw yn eu cynnwys, hefo rhai pobl yn cymryd y cyfle i bwysleisio pwynt neu bwyntiau yr oeddent wedi eu gwneud ynghynt ac eraill yn rhoi rhyw fath o grynodeb o'u mewnbwn.

Ariannwyd y gwaith yma gan lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Cyffredin y DU.

Adroddiad gan Ymgynghorwyr Amgen Cyfyngedig Gorffennaf 2024.